



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg

**Cartref Hen Bobl Hafan Deg
Teras y Deml
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7BJ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/05/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion
Lleuedd cofrestredig	19
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn parhau i fod yn hapus yn byw yng Nghartref Hafan Deg ac ar y gofal a'r cymorth a gânt. Mae'r gweithwyr gofal yn llawn gwybodaeth ac yn deall anghenion a dewisiadau'r unigolion. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y penderfyniad am eu gofal a'u cymorth. Mae'r rheolwr dros dro yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a chyd-reolwr, ac mae'n gweithio'n galed i barhau i ddatblygu'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn parhau i oruchwylio'r gwasanaeth drwy fynd yno'n rheolaidd a thrwy gynnal ymweliadau Rheoliad 73.

Cyflwynwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r amgylchedd yn ystod yr arolygiad blaenorol. Er bod y darparwr yn parhau i ailddatblygu rhannau o'r gwasanaeth, mae amser cwblhau'r gwaith a'r effaith bosibl y mae hyn yn ei gael ar y bobl sy'n byw yng nghartref Hafan Deg yn bryder. O ganlyniad, nid yw'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cael ei ddatrys ac mae'n parhau ar agor.

Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Caiff eu barn am y gwasanaeth ei cheisio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei hymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r bobl yn gallu sgwrsio yn Gymraeg a chânt wybodaeth yn Gymraeg os mai hon yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac mae ganddynt feddwl uchel o'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Gall y bobl a/neu eu cynrychiolwyr godi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwyllo a hyfforddi da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr dros dro a gaiff, yn ei dro, ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a chyd-reolwr. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisiâu a gaiff eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Nid yw'r bobl bob amser yn cyflawni eu canlyniadau llesiant oherwydd yr amgylchedd. Mae'r amser estynedig a gymerir i gwblhau gwaith adnewyddu'r gwasanaeth a'i effaith bosibl ar y bobl yn parhau i fod yn bryder.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gwybod am hanes yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am anghenion yr unigolyn, mae ganddynt asesiadau risg cysylltiedig a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen. Caiff hyn ei ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal.

Dywedodd perthynas wrthym; *"care staff are kind, caring and always keep me informed and involved in my mother's care"*. Er ein bod wedi cael gwybod, mae angen cofnodi cyfraniad yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd ym mhrosesau asesu ac adolygu ei ofal angen yn well yn y cofnodion gofal.

Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am fyw yn y gwasanaeth ac am y gofal a'r cymorth a gânt. Yn ystod sgysiau â'r bobl, gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei gael, gan ddweud bod y staff yn *"kind"*, *"very good"*, a *"lovely"*. Yn ystod nifer o arsylwadau yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio'n garedig iawn â'r bobl. Mae nifer o'r staff yn cyfathrebu yn Gymraeg â'r bobl, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl yn dewis pryd i godi a mynd i'r gwely, mae opsiynau amrywiol ar gyfer prydau bwyd bob amser ac mae gwybodaeth ddwyieithog ar gael bob amser.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod trafodaethau â'r bobl, dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Awel Tywi a'u bod yn gallu codi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny. Gwnaethant ddweud wrthym; *"I would speak to one of the carers or the manager"*. Cadarnhaodd y perthnasau hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn codi unrhyw bryderon. Dywedodd un perthynas wrthym, *"whilst I have no complaints at all, if I did, I would report any complaints to staff"*.

Yr Amgylchedd

Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr yn dilyn yr arolygiad diwethaf. Er bod y darparwr yn parhau i adnewyddu rhannau o'r gwasanaeth, mae amser cwblhau'r gweithiau a'r effaith bosibl y mae hyn yn ei gael ar y bobl sy'n byw yng nghartref Hafan Deg yn bryder. Ni wnaeth unrhyw unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw gwyno am y gwaith adnewyddu parhaus. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym eu bod wedi gorfod symud pobl i leoliadau gwahanol o fewn y gwasanaeth i leihau effaith y gwaith a'r sŵn o'u hamgylch. Mae rhannau o'r gwasanaeth sydd wedi cael eu hadnewyddu o safon uchel, gan gynnwys y gerddi cymunedol ac uned fach i gefnogi'r bobl sy'n byw gyda Dementia. Dywedodd un unigolyn wrthym *“the gardens are looking beautiful; I can't wait to see them in the Summer”*. Mae'r darparwr yn parhau i ddilyn cynllun adnewyddu, gan gynnwys swyddogion a enwir yn arwain y cynnydd i'w gwblhau. Mae'r Cynllun Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau ar agor ar hyn o bryd.

Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely â'u lluniau, eu hornamentau a'u dodrefn eu hunain.

Cynhelir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd. Caiff cyfarpar symud a chodi a chario a chyfarpar diffodd tân eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae'r darparwr yn parhau i gwblhau camau gweithredu yn dilyn archwiliad diogelwch tân er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau tân. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac yn hygyrch mewn argyfwng. Mae arwyddion clir i ddangos allanfeydd tân ac nid oes unrhyw beth yn eu ffordd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau priodol ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth. Caiff ymweliadau Rheoliad 73 eu cwblhau bob tri mis, ac mae'r adroddiad dilynol ar yr ymweliad yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau ac yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen yn glir ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

Mae'r rheolwr dros dro yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a chyd-reolwr, sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Dywedodd y rheolwr dros dro wrthym *"I have excellent support from [Unigolyn Cyfrifol] and [cyd-reolwr], they are great"*. Mae'r staff hefyd yn teimlo'n gadarnhaol am dîm rheoli'r gwasanaeth, a gwnaethant ddweud wrthym *"the [rheolwr dros dro] is very approachable and supportive"* a *"the managers are very helpful and I know I can speak to them if I have any concerns"*.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol; gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw a chofnodion personél gadarnhau hyn. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o faterion diogelu a'u cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i gefnogi'r staff yn eu rolau.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, gwirio'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae staff newydd yn cael cyfnod sefydlu wrth ddechrau eu cyflogaeth. Rhoddodd y rheolwr dros do wybod i ni fod y rhaglenni sefydlu ar gyfer y staff ar bob lefel yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a phenodol. -Mae hyn wedi cael ei ategu gan y staff y gwnaethom siarad â nhw a gan y cofnodion hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparwr.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
44	Nid yw'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant yn llawn.	Heb ei gyflawni

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 19/06/2024